



# CYLCHLYTHYR Y RHWYDWAITH GOFAL PLANT
# HAF 2026

## ASESIAD DIGONOLRWYDD GOFAL PLANT 2027

MAE 5 MLYNEDD WEDI HEDFAN, AC RYDYN NI'N PARATOI I DDECHRAU'R ASESIAD DIGONOLRWYDD GOFAL PLANT A FYDD YN CAEL EI GYFLWYNO YM MIS MEHEFIN 2027.

YN RHAN O'R BROSES YMGYNGHORI BYDDWN YN YMGYSYLLTU Â NIFER O RANDDEILIAID A PHOBL SYDD Â DIDDORDEB MEWN GOFAL PLANT.

BYDD HYN YN CYNNWYS DARPARWYR GOFAL PLANT A BYDDWN YN CYSYLLTU Â CHI YN YSTOD Y MISOEDD NESAF I GLYWED EICH PRYDERON A'CH SYNIADAU AR GYFER DYFODOL GOFAL PLANT YN NHORFAEN.

OS OES UNRHYW GWESTIYNAU Y DYLEM NI EU HYCHWANEGU AT EIN HYMGYNGHORIAD, YN EICH BARN CHI, ANFONWCH E-BOST AT HANNAH.BEDFORD@TORFAEN.GOV.UK

**Gwybodaeth Gyswllt**
**E-bost: fis@torfaen.gov.uk**
**Ffôn: 0800 0196 330**
**Gwefan:** www.torfaenfis.gov.uk

https://www.torfaenfis.org.uk/en/providers/childcare-network-newsletter

# Hysbysiadau Pwysig



Nicola Bartlett
Rheolwr Gofal Plant

Helo bawb,

Fy enw i yw Nicola Bartlett, ac rwy'n falch iawn o gyflwyno fy hun fel y Rheolwr Gofal Plant newydd ar gyfer Torfaen.

Mae'n fraint ymuno â gwasanaeth sy'n chwarae rôl mor hanfodol
wrth gefnogi plant, teuluoedd a chymunedau, ac rwyf yn edrych ymlaen yn fawr iawn
at weithio gyda chydweithwyr ar draws yr awdurdod.

Mae fy nghefndir yn y byd addysg a bûm yn athrawes am 25 mlynedd ac yn arweinydd a rheolwr addysg am y 18 mlynedd diwethaf. Trwy gydol fy ngyrfa, rwyf wedi ymrwymo i wella canlyniadau i blant, pobl ifainc a theuluoedd, trwy ddarpariaeth o ansawdd uchel, cynhwysiant, a gweithio mewn partneriaeth gref. Mae fy mhrofiad yn pontio'r blynyddoedd cynnar, diogelu, datblygu arweinyddiaeth, a gwella gwasanaethau, ac mae'r cyfle i ddod â'r wybodaeth hon i'm rôl newydd yn ennyn cyffro ynof.

Mae fy arddull fel arweinydd yn un cefnogol a chydweithredol sy'n canolbwyntio ar gael hyd i atebion. Credaf fod gwerthfawrogi cyfraniad pawb a chreu amgylcheddau lle mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu clywed, eu parchu a'u grymuso, yn hollbwysig. Mae meithrin perthnasoedd cadarnhaol a diogelwch seicolegol yn ganolog i'r ffordd rwy'n arwain, ac rwy'n ymroddgar i weithio ochr yn ochr â thimau i ddeall yr hyn sy'n gweithio'n dda ac ym mha ffordd y gallaf eich cefnogi orau.

Mae croeso i chi gysylltu â mi ar unrhyw adeg; rwyf bob amser yn hapus i greu'r cyswllt, gwrando, a dysgu. Edrychaf ymlaen at gwrdd â chi i gyd, a mynd ati i weithio gyda'n gilydd i barhau i ddarparu gwasanaethau gofal plant cryf, cynhwysol ac uchel eu hansawdd ar gyfer ein cymunedau.

Cofion cynnes, Nicola
Nicola.Bartlett@torfaen.gov.uk

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd
Torfaen
Family Information Service

# Hysbysiadau Pwysig

## Gyrfaoedd yn y maes Gofal Plant
## Sgiliau Gwaith a Llwybr Cyflogaeth

Mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), rydym ar hyn o bryd yn treialu WSEP (Wales Skills to Employment Pathway) i gefnogi'r gwaith o recriwtio a chadw yn y sector gofal plant.

Mae'r llwybr yn canolbwyntio ar gynyddu sgiliau unigolion trwy ddarparu cymwysterau allweddol, gan gynnwys Diogelu, Cymorth Cyntaf Pediatrig, a Hylendid Bwyd. Mae cyfranogwyr hefyd yn cwblhau lleoliad profiad gwaith hynod werthfawr, sy'n rhoi blas go iawn iddynt ar weithio yn y sector gofal plant, a'u helpu i feithrin hyder a sgiliau ymarferol.

O ran lleoliadau gofal plant, mae hyn yn rhoi cyfle i asesu a yw cyfranogwr yn addas ar gyfer eu darpariaeth, ac mae potensial i symud yr unigolyn ymlaen i lwybr prentisiaeth.

Os oes gennych ddiddordeb i'ch lleoliad gymryd rhan yn y cynllun peilot newydd hwn, cysylltwch ar fis@torfaen.gov.uk

## Ehangu Dechrau'n Deg

Yn ddiweddar, rydym wedi creu tudalen "Dod yn Ddarparwr Dechrau'n Deg" ar wefan y GGiD

https://www.torfaenfis.org.uk/en/providers/becoming-a-flying-start-provider

Oeddech chi'n gwybod bod ein proses ymgeisio ar agor drwy'r amser?. Rydym yn awyddus iawn i gael mwy o leoliadau gofal plant sy'n cynnig Dechrau'n Deg.

Os ydych chi eisiau gwybod mwy, cysylltwch â'r Swyddogion Datblygu Gofal Plant ar Childcaresupport@torfaen.gov.uk



# Hysbysiadau Pwysig

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent Public Services Board

Tîm Iechyd Cyhoeddus Gwent Public Health Team

## The Gwent Best Start in Life Community of Practice

### Giving EVERY baby and child the best start in life


### Connect • Learn • Share good practice

Launched in January 2026, the Gwent Best Start in Life Community of Practice brings together Early Years professionals across Gwent who work with families from pregnancy through to age 7.


**The Community of Practice has been created:**

- As a shared space to connect, exchange learning and strengthen how we work together to give every baby and child the best possible start in life.
- To amplify the voices and lived experiences of babies, children and families
- To create regular opportunities for shared learning, reflection and improvement

**As a member, you'll receive:**

- Quarterly e-newsletters and e-bulletins, informed by everyday practice and family insight
- Invites to our bi-monthly webinars, led by expert speakers, focused on early years topics that support your role and practice.
- Opportunities to share resources, learning and examples of good practice

👉 Sign up **here** to become a member or scan the QR code



# Dolenni hyfforddi

Oes gennych ddiddordeb i gofrestru ar gyfer cymhwyster gyda hyfforddwyr sy'n cael eu hargymell gan 91% o'n dysgwyr?

Gallwch ennill cymhwyster Gwaith Chwarae trwy gwrs 12 wythnos sy'n ysbrydoli ac yn llywio gweithlu medrus i ddeall y dull Gwaith Chwarae a'i weithredu.

Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn brofiadol o ran datblygu a chyflwyno gweithdai a chymwysterau i wella ansawdd y gofal, y chwarae a'r dysgu a ddarperir i blant mewn clybiau. Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn ganolfan a gymeradwyir gan Sefydliad Dyfarnu CACHE, ar gyfer cyflwyno cymwysterau Gwaith Chwarae ac Asesu achrededig.

Am ragor o wybodaeth ewch i

https://clybiauplantcymru.org/cy/all-training-and-events/

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

# Dolenni hyfforddi

**Hyfforddiant Offeryn Goleuadau Traffig**

.

Mae Offeryn Goleuadau Traffig Brook's yn helpu gweithwyr proffesiynol i adnabod ymddygiadau rhywiol ymysg plant a phobl ifanc, eu deall ac ymateb iddynt. Mae'n defnyddio system syml 'Gwyrdd, Ambr, Coch' i nodi a yw ymddygiadau yn briodol yn ddatblygiadol, yn bryderus, neu'n niweidiol.

Mae'r hyfforddiant yn berthnasol i'r Blynyddoedd Cynnar ac mae adrannau o'r pecyn cymorth yn briodol ar gyfer plant cyn-ysgol 0 – 4 oed yn ogystal ag ystodau oedran hŷn.

Mae'r Offeryn Goleuadau Traffig yn ganllaw cam wrth gam hawdd i'w ddefnyddio mewn lleoliadau, ac mae'n cefnogi staff lleoliadau cyn-ysgol i adnabod ymddygiad rhywiol priodol ac amhriodol.

Arweinwyr Ysgolion Iach sy'n darparu'r hyfforddiant sydd wedi ei ariannu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Yr hyn y mae Brook yn ei ddarparu:

- Gwybodaeth a chyngor ar iechyd a lles rhywiol
- Clinigau cyfrinachol ac am ddim
- Addysg Rhyw a Chydberthynas (RSE)
- Adnoddau ar-lein
- Hyfforddiant i weithwyr proffesiynol

Canlyniadau Hyfforddiant:

- Nodi ymddygiad rhywiol fel un nodweddiadol, problemus neu niweidiol
- Deall beth mae'r ymddygiad yn ei gyfleu a pham mae'n digwydd
- Ymateb priodol yn seiliedig ar gymhelliant, cyfathrebu, a difrifoldeb

Ewch ati i drefnu eich lle AM DDIM nawr!

Hyfforddiant Offeryn Goleuadau Traffig Brook Mehefin 29 9.00-12.00 AR-LEIN – Llenwi'r ffurflen

Hyfforddiant Offeryn Goleuadau Traffig Brook 6 Gorffennaf 1.00-4.00 AR-LEIN – Llenwi'r ffurflen

# Dolenni hyfforddi

**Hyfforddiant Offeryn Goleuadau Traffig**

Cwrs Blynyddoedd Cynnar Sgiliau Newydd am Oes Agored

Dyma raglen safonedig dros gyfnod o 2 ddiwrnod i staff Gofal Plant. Dietegwyr ledled Cymru sydd wedi ei datblygu a thîm Dieteteg Iechyd y Cyhoedd fydd yn ei chyflwyno. Byddwn ni'n rhannu gwybodaeth a sgiliau gyda chi am fwyd a maeth, sy'n benodol ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar. Mae'r cwrs wedi'i achredu'n gwrs Lefel 2 gydag Agored Cymru.

Dyddiadau 2026

23 a 30 Mehefin – Caerffili (Canolfan Integredig i Blant Sant Iago).
· 16 a 23 Medi – Sir Fynwy (i'w gadarnhau)
· 8 a 15 Hydref - Torfaen (Canolfan Ddinesig Pont-y-pŵl - i'w gadarnhau).
· 10 a 17 Tachwedd - Casnewydd (Canolfan Ddinesig Casnewydd- i'w gadarnhau).

Dyddiadau 2027

13 a 20 Ionawr - Blaenau Gwent (Ystafell Dylluan Canolfan Integredig i Blant y Blaenau i'w gadarnhau).
· 11 a 18 Chwefror - Caerffili (i'w gadarnhau).
· 9 a 16 Mawrth 2027 – Casnewydd (i'w gadarnhau)
Cliciwch yma i gadw lle
https://bookings.cloud.microsoft/book/EarlyyearsBookingSystem@wales.nhs.uk/?ismsaljsauthenabled=true

# Dolenni hyffordd

**Sesiwn Diweddaru Y Blynyddoedd Cynnar**

Mae'r sesiwn rithwir 2 awr o hyd, a gyflwynir gan dîm Dieteg Iechyd y Cyhoedd ar gyfer y rhai sydd wedi cyflawni'r cymhwyster Sgiliau Bwyd a Maeth Cymunedol Lefel 2 ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar o'r blaen ac mae angen ei ddiweddaru ar ôl y ddwy flynedd.

Byddwn yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am faeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer plant ifanc, a byddwn yn trafod unrhyw ddiweddariadau i'r canllawiau a'r argymhellion cyfredol.

Dyddiadau 2026

18 Mai 9:00 am - 11:00 am
25 Medi 14:00pm- 16:00pm

Dyddiadau 2027
1 Rhagfyr 16:00pm- 18:00 pm
5 Mawrth 9:00am- 11:00am

Cofiwch fod angen dod i'r sesiynau hyn ddwy flynedd ar ôl cwblhau cwrs Maeth Blynyddoedd Cynnar Lefel 2 gyda ni. Os ydych chi eisoes wedi cwblhau'r cwrs ac angen diweddaru, dilynwch y ddolen isod

https://bookings.cloud.microsoft/book/EarlyYearsupdatesession@nhswales365.onmicrosoft.com/?ismsaljsauthenabled=true

# Dolenni hyffordd

**Cyllid a Dolenni Cyswllt:**

Grantiau i gefnogi datblygiad yn y blynyddoedd cynnar i blant byddar (DU)

Mae grantiau gwerth hyd at £10,000 ar gael drwy Raglen Grantiau Cymunedol y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar ar gyfer grwpiau cymunedol, elusennau a sefydliadau nid-er-elw sy'n cefnogi plant byddar a'u teuluoedd ledled y DU.

Yn y rownd hon, bydd cyllid yn cefnogi prosiectau a gweithgareddau sy'n hyrwyddo datblygiad plant byddar yn eu blynyddoedd cynnar (0–5 oed). Mae'r cyfnod hwn yn hanfodol, yn enwedig i blant a allai fod yn wynebu heriau o ran iaith, cyfathrebu a sgiliau cymdeithasol heb y gefnogaeth gywir.

Gall prosiectau gynnwys teuluoedd, gweithwyr proffesiynol, a phlant byddar hŷn, ar yr amod eu bod yn cyfrannu at ddatblygiad y blynyddoedd cynnar.

Gall cyllid dalu costau fel:
Llogi lleoliad.
Trafnidiaeth.
Costau hyrwyddo.
Cyflogau gweithwyr sesiynol, dehonglwyr, a thiwtoriaid iaith.
Offer sy'n hanfodol ar gyfer y prosiect, fel offer chwarae neu dechnoleg.

Derbynnir ceisiadau ar sail dreigl, ac mae dyddiadau asesu penodol trwy gydol y flwyddyn.

**Grantiau ar gyfer Plannu Coed, Gwrychoedd a Pherllannau (DU)**

Mae'r Cyngor Coed wedi cyhoeddi bod ei Gronfa Branching Out ar agor i dderbyn ceisiadau. Mae'n cynnig grantiau bach i gefnogi prosiectau i blannu coed mewn cymunedau ledled y DU.

Mae grantiau gwerth rhwng £250 a £2,500 ar gael ar gyfer prosiectau yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae'r ymgeiswyr cymwys yn cynnwys grwpiau cymunedol, ysgolion, colegau, prifysgolion, Rhwydweithiau Wardeniaid Coed, cynghorau plwyf neu dref, cymdeithasau tenantiaid a phreswylwyr, meithrinfeydd neu gartrefi gofal a ariennir gan y gymuned, cwmnïau buddiannau cymunedol cyfyngedig trwy warant, ac elusennau cofrestredig bach.

Rhaid i ymgeiswyr gael caniatâd ysgrifenedig ar gyfer y safle plannu.

Bwriedir cyllid ar gyfer coed, gwrychoedd, coed gwrychoedd, a pherllannau, ynghyd ag eitemau i'w sefydlu fel gwarchodwyr, offer clymu, polion, tomwellt, compost heb fawn, a rhywfaint o offer dyfrhau.

Mae'r Cyngor Coed yn chwilio am gyfranogiad cryf gan y gymuned, gwerth da, gwybodaeth leol, a chynlluniau ôl-ofal clir. Bydd disgwyl i geisiadau mwy o faint ddangos cynllun ehangach y prosiect a gallu gwirfoddolwyr i'w gyflawni.

Nid yw llafur proffesiynol, costau llogi offer trwm a chynhyrchion sy'n cynnwys mawn fel arfer yn cael eu hariannu.

Y dyddiad cau yw hanner nos ar 19 Gorffennaf 2026, er, gall y gronfa gau'n gynharach os dyrennir yr holl arian.

Mae ymgeiswyr llwyddiannus fel arfer yn cael gwybod o fewn pump i chwe wythnos, a rhaid plannu a hawlio erbyn 14 Mawrth 2027.

# Cyllid a Dolenni Cyswllt:

Grantiau ar gael ar gyfer prosiectau digidol, amgylcheddol ac addysgol (DU)

Mae'r cwmni telathrebu Cellnex wedi ailagor ei Gronfa Gymunedol ac mae'n cynnig grantiau gwerth hyd £5,000 i elusennau, Cwmnïau Buddiant Cymunedol a grwpiau nid-er-elw ledled y DU.

Mae'r gronfa yn cefnogi prosiectau sy'n cryfhau cymunedau, yn meithrin hyder digidol, ac yn gwella'r amgylchedd mewn ardaloedd awdurdodau lleol lle mae Cellnex UK yn gweithredu.

Mae cyllid ar gael ar gyfer gweithgareddau o dan bedair thema:
Cynhwysiant a Sgiliau Digidol - helpu pobl i fynd ar-lein, meithrin sgiliau digidol, neu ddefnyddio technoleg yn hyderus.
Economi Gylchol - lleihau gwastraff, annog atgyweirio ac ailddefnyddio, neu gefnogi defnyddio deunyddiau mewn ffordd gynaliadwy.
Bioamrywiaeth a Chadwraeth - gwella natur leol, gwarchod cynefinoedd bywyd gwyllt, neu gefnogi gweithredu amgylcheddol cymunedol.
AI ac Addysg - meithrin ymwybyddiaeth am ddeallusrwydd artiffisial, defnyddio technoleg mewn ffordd gyfrifol neu addysg STEM.

Gall grwpiau cymunedol nad ydynt wedi cofrestru, wneud cais trwy gorff atebol.

Gellir cyflwyno ceisiadau ar unrhyw adeg, a bydd penderfyniadau fel arfer yn cael eu gwneud o fewn pum wythnos

# Cipolwg ar ein Lleoliadau

Rydyn ni'n gwybod bod cymaint o bethau gwych yn digwydd ar draws ein lleoliadau gofal plant, a byddem wrth ein bodd i'ch helpu i'w dathlu!

Ydych chi wedi cyflawni rhywbeth arbennig yn ddiweddar, wedi cwblhau prosiect, neu efallai bod gennych enghraifft o ymarfer gwych rydych chi'n falch ohono? Gall rhannu eich stori ysbrydoli eraill a dangos y gwaith rhagorol sy'n mynd rhagddo ledled Torfaen.

P'un a yw'n llwyddiant bach neu'n garreg filltir fawr, rydyn ni eisiau clywed gennych chi!
Anfonwch eich storïau a'ch lluniau i: fis@torfaen.gov.uk

Gadewch i ni daflu goleuni ar y gwaith anhygoel rydych chi'n ei wneud bob dydd

Mae Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA) wedi rhannu rhywfaint o wybodaeth a allai fod o ddiddordeb i chi

Astudiaeth Achos - Dechrau'n Deg Y Broses Dendro. Ble ydyn ni nawr?

Taflenni ffeithiau i rieni:

https://ndna.org.uk/product-category/parent-factsheets/

Taflenni ffeithiau am ddim ar gyfer y sector, gan gynnwys y Gymraeg, arferion gwrth-hiliol, cwricwlwm a chymorth busnes

https://ndna.org.uk/product-category/wales-early-years-factsheets/